Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

13eg o Dachwedd

**Diwrnod Plant Mewn Angen 2023**
**Dydd Gwener, 17eg o Dachwedd 2023**

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Ysgrifennwn atoch i egluro trefniadau ar gyfer diwrnod gwisg anffurfiol ar ddydd Gwener yma er mwyn i ni fel cymuned yr ysgol godi arian ar gyfer apêl flynyddol, Plant Mewn Angen. Bydd hawl gan ddisgyblion i wisgo gwisg anffurfiol (thema'r elusen eleni yw smotiau) am gost o £1 fesul disgybl (50c os oes brawd neu chwaer yn yr ysgol). Gofynnwn yn garedig i chi fel rhieni i wirio bod gwisg eich plentyn yn **addas** ar gyfer diwrnod ysgol.

Yn ogystal â diwrnod gwisg anffurfiol, bydd boreau coffi yn cael eu cynnal yn ystod yr amseroedd egwyl, felly gofynnwn yn garedig iddynt ddod ag arian parod os am gefnogi'r gweithgareddau yma.

Mae'r apêl hyd yn oed yn bwysicach i ni ym Mryn Tawe eleni. Fel y soniwyd yn ein llythyr ar ddiwedd yr hanner tymor cyntaf, bu tristwch mawr yn nheulu Bryn Tawe wrth i ni golli Emily Williams, disgybl yn ein 6ed Dosbarth, yng nghanol mis Medi eleni. Hyfryd oedd clywed gan deulu Emily am y gefnogaeth a dderbynion nhw gan elusennau megis Plant Mewn Angen, ac fel cymuned ysgol, yr ydym wedi elwa o fewnbwn cownselydd galar (cynllun sydd wedi ei ariannu gan Blant Mewn Angen). Hyfryd yw clywed am gynlluniau'r chweched dosbarth i gynnal diwrnod o wisg ffansi a gweithgareddau amrywiol yn ystod y diwrnod i dalu eu teyrnged i Emily.

Gofynnwn yn garedig felly i ddisgyblion Bryn Tawe i gefnogi ein hapêl ar ddydd Gwener yma. Cofiwch i gysylltu os oes yna gwestiwn am yr uchod.

Diolch eto,



Mr Chris Shaw (Pennaeth Cynorthwyol)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi WRU School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru / Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery / Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales